

Crynodeb Gweithredol ar gyfer yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o Strategaeth a Ffafirir Cynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy

Cyflwyniad

Penodwyd AECOM gan Gyngor Sir Fynwy i gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ('yr Asesiad') o Strategaeth a Ffafirir ei Gynllun Datblygu Lleol Newydd ('CDLIN'), sy'n nodi'r datblygiadau yn Sir Fynwy rhwng 2018 a 2033 sy'n cynnwys darparu ar gyfer 8,366 o anheddau preswyl newydd, 43ha o dir cyflogaeth a chyflawni 7,215 o swyddi ychwanegol. Amcan yr asesiad hwn yw dynodi unrhyw agweddau o'r Cynllun a fyddai'n cael effaith niweidiol ar integreidd nodweddion safleoedd bywyd gwyllt sy'n bwysig yn rhyngwladol, a elwir hefyd yn safleoedd Ewropeaidd (Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ac, fel mater o bolisi Llywodraeth, (safleoedd Ramsar), naill ai yn unigol neu gyda chynlluniau a phrosiectau eraill, ac i gynghori ar beirianweithiau polisi addas ar gyfer lliniaru pan ddynodir effeithiau o'r fath. Ond, o ystyried ei fod ar gyfnod cynnar nid yw'r CDLIN yn nodi'r dyraniadau safleoedd penodol eto nag unrhyw eiriad polisi manwl. Er ei fod yn cynnwys dewisiadau o ran safleoedd datblygu posibl yn Atodiad 3 gall y rhain newid yn sylweddol rhwng y Strategaeth a Ffafirir a'r Cynllun Adnau. Feiïy, gohirir Asesiad Priodol (ail gam y broses asesiad rheoliadau cynefinoedd) o rai o'r llwybrau effaith hyd yr asesiad a'r Cynllun Adnau ac i feysydd gwaith pellach gael eu dynodi, i fod yn sail i'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

Cyd-destun Deddfwriaethol

Disgrifir yr angen am asesiad o effeithiau ar safleoedd Ewropeaidd yn y Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'i diwygiwyd). Er mwyn casglu a fydd effaith ar integreidd unrhyw safleoedd Ewropeaidd, rhaid i awdurdodau cymwys felly gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o'r cynllun neu brosiect dan sylw, gan gynnwys Asesiad Priodol os bydd angen, cyn ei gymeradwyo.

Cwmpas

O ystyried asesiad cychwynnol o'r safleoedd Ewropeaidd perthnasol o fewn 15km o Sir Fynwy a'r llwybrau effaith sy'n bresennol, mae'r Asesiad yn ymdrin â'r safleoedd Ewropeaidd canlynol: **Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Safleoedd Ystumod Wysg, Coetir Cwm Clydach, Coetiroedd Dyffryn Gwy, Safleoedd Ystumod Dyffryn Gwy a Fforest y Ddena, Ardal Gwarchodaeth Arbennig/Ramsar Môr Hafren, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Môr Hafren, Afon Gwy, Coetir Ceunant Afon Avon, Afon Wysg, Glaswelltiroedd Aberbargoed, Coetir Pen-y-fâl, Llyn Syfaddar, a Choedy Cerrig.**

Tasgau yr Asesiad

Yn dilyn casglu tystiolaeth gychwynnol, cam cyntaf unrhyw Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yw sgrinio am Effeithiau Arwyddocaol Tebygol, sydd, yn ei hanfod, yn asesiad o'r risgiau i safleoedd Ewropeaidd, sy'n gysylltiedig â chynllun datblygu. Os na ellir eithrio Effeithiau Arwyddocaol Tebygol, a bod peirianwaith ar gyfer rhyngweithio niweidiol rhwng cynllun â safle yn bresennol, bydd angen i gam nesaf yr Asesiad, a elwir yn Asesiad Priodol, gael ei gynnal. Mae'r Asesiad Priodol yn ddadansoddiad manylach o'r llwybrau effaith a'r safleoedd Ewropeaidd a ystyriwyd ar y cam sgrinio. Un o elfennau allweddol Asesiad Priodol yw ystyried camau lliniaru, a all ddiogelu safle Ewropeaidd rhag effeithiau niweidiol posibl¹. Yn ychwanegol, sefydlodd barn yn ddiweddar bod rhaid i gynefinoedd neu rywogaethau tu allan i safle Ewropeaidd, sy'n hanfodol i'r safle a ddiogelir weithredol i lawr, gael eu hystyried ym mhroses Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd². Ar gyfer yr Asesiad hwn, cyflawnwyd Tasg 1 (Sgrinio am Effeithiau Arwyddocaol Tebygol) a Thasg 2 (Asesiad Priodol).

Casgliadau ac Argymhellion

Dengys yr Asesiad y gellir eithrio Effeithiau Arwyddocaol Tebygol ar gyfer y llwybrau effaith a ddynodwyd o ran y rhan fwyaf o safleoedd Ewropeaidd. Fodd bynnag, oherwydd cyfuniad o ddiffyg tystiolaeth wyddonol (h.y. dim modelu ansawdd aer na data ymwelwyr ar gael) a diffyg manylion yn y Strategaeth a Ffafirir bresennol (h.y. dim dyraniadau safleoedd, geiriad y polisi yn gy'nyngedig), gohirir

¹ Yn ôl penderfyniad gan Lys Cyfiawnder Ewrop, ni all y rhain gael eu hystyried yn y cam sgrinio o'r HRA bellach. People Over Wind and Sweetman v Coillte Teoranta (C-323/17)

² Barn Holohan 2018. Achos C-461/17

Asesiad Priodol diffiniol o'r llwybrau effaith canlynol yn gysylltiedig â safleoedd Ewropeaidd penodol tan Asesiad y Cynllun Adnau:

- Effeithiau llygredd atmosfferig ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Safleoedd Ystlumod Wysg, Coedydd Cwm Clydach a Choetiroedd Dyffryn Gwy, ac Ardal Cadwraeth Arbennig / Ardal Gwarchodaeth Arbennig / Ramsar Môr Hafren
- Pwysedd hamdden ar Ardal Cadwraeth Arbennig / Ardal Gwarchodaeth / Ramsar Môr Hafren
- Tir cysylltiedig o ran effeithiolrwydd yn ymwneud ag Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Safleoedd Ystlumod Wysg, Dyffryn Gwy a Fforest y Ddena
- Ansawdd dŵr yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afon Wysg ac Afon Gwy
- Lefel, llif a chyfanswm y dŵr yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afon Wysg ac Afon Gwy

Ni ellir eithrio effeithiau niweidiol llygredd atmosfferig ar integredd safleoedd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Safleoedd Ystlumod Wysg, Coedydd Cwm Clydach a Choetiroedd Dyffryn Gwy, ac Ardal Cadwraeth Arbennig / Ardal Gwarchodaeth Arbennig / Ramsar Môr Hafren, oherwydd nad oes modelu ansawdd aer ar gyfer elfennau sensitif o'r cynefin yn y safleoedd hyn ar gael. Argymhellir modelu o leiaf un trawslun ffordd yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Safleoedd Ystlumod Wysg a Coedydd Cwm Clydach i fod yn sail i Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y Cynllun Adnau. Dylid modelu trawslun hefyd ar hyd yr M4 a'r M48, wrth groesi Ardal Cadwraeth Arbennig / Ardal Gwarchodaeth Arbennig / Ramsar Môr Hafren o fewn 200m o'r forfa halen arfordirol. Yn ychwanegol, oherwydd hyd Ardal Cadwraeth Arbennig Coetiroedd Dyffryn Gwy ar lwybr posibl i gymudwyr rhwng de a gogledd, cynghorir bod **dau drawsllun ffordd yn cael eu modelu** ar hyd y safle hwn.

O ran pwysau hamdden yn Ardal Gadwraeth Arbennig/ Ramsar Môr Hafren daeth i'r casgliad, o ystyried y dyraniad o anheddau preswyl newydd yn Sir Fynwy a bod mannau addas i gael mynediad i'r Ardal Gwarchodaeth Arbennig / Ramsar yn yr awdurdod, mae angen rhagor o dystiolaeth. **Bydd hyn yn cynnwys arolwg ymwelwyr** ar y ddau bwynt mynediad a ddynodwyd (Maes parcio Safle Picnic Black Rock, llwybr yr arfordir Cil-y-coed), **ymchwiliad i ddefnydd hamdden o barseli tir all fod yn gysylltiedig** yn ne Sir Fynwy, ac, os bydd yr arolwg ymwelwyr yn dynodi bod gofyn hynny, **sefydlu Strategaeth Osgoi Dros Dro**. Ymhellach, argymhellir y dylid cyflwyno geiriad polisi gwarchodol yn y Cynllun Adnau, sy'n asesu pa mor dderbyniol yw'r cynigion sy'n cynyddu'r mynediad hamdden i elfennau Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sensitif (gweler yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd am eiriad manwl y polisi).

Ni ellir eithrio effeithiau niweidiol ar integredd safleoedd parthed tir cysylltiedig o ran swyddogaeth ag Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Safleoedd Ystlumod Wysg a Safleoedd Ystlumod Dyffryn Gwy a Fforest y Ddena ac Ardal Gwarchodaeth Arbennig / Ramsar Môr Hafren, oherwydd bod safleoedd posibl yn Ardaloedd Twf Strategol Trefynwy, Cas-gwent a Glannau Hafren yn cynnwys cynefinoedd addas ac yn ddigon mawr i gynnal elyrch Bewick, ystlumod trwyn pedol lleiaf a mwyaf. Gohirir Asesiad Priodol diffiniol o'r llwybr effaith hwn hyd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y Cynllun Adnau, pan fydd y dyraniadau safleoedd ar gael. Fodd bynnag,, er mwyn lleihau'r potensial ar gyfer effeithiau niweidiol, argymhellir **cynnwys geiriad polisi gwarchod yn y Cynllun Adnau sy'n cydnabod pwysigrwydd cynefinoedd cysylltiedig sy'n cynnal o ran yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig hyn, gan gynnwys y Parthau Cynhaliath Craidd 2km a 3km nodweddiadol**, ar gyfer ystlumod trwyn pedol lleiaf a mwyaf (gweler yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd am y geiriad manwl). Mae dystiolaeth wyddonol yn dynodi bod cynefin chwilio am fwyd a / neu gymudo tu allan i derfynau'r safle dynodedig yn hanfodol ar gyfer integredd yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ystlumod. Yn ychwanegol, cynghorir, o ran Ardal Gwarchodaeth Arbennig / Ramsar Môr Hafren a'r safleoedd caeau glas a ddynodwyd o faint digonol (o leiaf 2ha) yn ne Sir Fynwy, **bod geiriad polisi am yr angen am asesiad cynefin manwl ac, os yw'n addas, arolygon adar** yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Adnau (gweler yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd am y geiriad manwl).

Yn olaf, **parthed ansawdd a chyfaint, lefel a llif y dŵr**, bydd Asesiad Priodol diffiniol yn cael ei gynnal ar gyfer y Cynllun Adnau, pan fydd dosbarthiad y datblygiadau a'r seilwaith Gweithiau Trin Dŵr Gwastraff cysylltiedig ar gael. Fodd bynnag, o ystyried sensitifrwydd y ddwy Ardal Cadwraeth Arbennig o ran y llwybrau effaith hyn, **mae'n cael ei gydnabod y bydd angen cynnwys lliniaru ar ffurf geiriad polisi yn y Cynllun Adnau**. Bwriad hyn yw sicrhau y gall datblygiadau newydd gael eu cynnwys o fewn yr uchafswm a ganiateir yn y seilwaith Trin Dŵr Gwastraff ac na fydd cyflenwi dŵr i

ddatblygiadau newydd yn newid y trefniadau llif naturiol yn y ddwy afon (gweler yr Asesiad Rheoliadau Cynefinodd am y geiriad manwl). Ymchwiliwyd i niwtraliaeth ffosforws hefyd yn yr Asesiad hwn. Byddai'r holl safleoedd posibl a aseswyd yn yr Ardaloedd Twf Strategol yn y Fenni a Threfynwy yn arwain at ormodedd o ffosforws yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afon Gwy ac Afon Wysg. Felly, bydd angen camau lliniaru, wedi eu teilwrio yn ôl y cwantwm a'r dosbarthiad gofodol o ran twf a ddyrennir yn y Cynllun Adnau, er mwyn i ddatblygiadau symud ymlaen.